

Parti Nadolig

Cynhelir Parti Nadolig Ysgol Sul Capel Coch ar ôl oedfa Nadolig y Plant nos Sul, Rhagfyr 21. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch.

Newid trefn

Bydd un newid bach yn nhrefn oedfaon Capel Coch o ddechrau Ionawr ymlaen. Gan y bydd yr Ofalaeth yn ymestyn i gynnwys dwy eglwys arall, ni fydd y gweinidog yn gwasanaethu yn Capel Coch ar bedwerydd nos Sul y mis.

Felly, oherwydd y newid anorfod hwn yn nhrefniadau'r Ofalaeth, ni fydd oedfa yn Capel Coch ar y pedwerydd Sul o'r mis, gan gychwyn yn Ionawr 2015.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Rhagfyr 3: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 7: Gwasanaethir

yn y ddwy oedfa, am 9.30 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Rhagfyr 3: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 7: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 7: Dim oedfa.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Rhagfyr 5: Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 30

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Rhagfyr 7

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 14

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Lewis

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 30

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal rhai o chwariod yr eglwys

Rhagfyr 7

10.00 a.m. - Mr John Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John Hughes

Rhagfyr 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI (Oedfa Undebol Naw Llith a Charol yn Capel Coch)



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 615 – Dydd Sul, 30 Tachwedd, 2014

Black Friday

Mae pŵer y cyfryngau yn fawr, grym cyfalafiaeth yn enfawr, a dylanwad yr Unol Daleithiau'n ddiderfyn. Rhowch y tri pheth efo'i gilydd, a'r hyn a gewch chi ydi *Black Friday*.

O weld y sylw a roddwyd i'r diwrnod hwn echdoe gallech dybio ei fod cyn hyned â Dydd Nadolig a hyd yn oed mor Gymreig â Dydd Gŵyl Ddewi. Roedd gweld lluniau pobl yn rhuthro i fachu nwyddau fel setiau teledu rhad mewn archfarchnadoedd yn ddiffyng a thrist yr un pryd.

Ond y gwir dristwch yw'r ffordd yr hyrwyddwyd y diwrnod hwn fel petai pobl Cymru a gwledydd Prydain wedi bod yn ei ddathlu ers cenedlaethau. Arferiad Americanaidd yw'r *Black Friday* hwn, sef y diwrnod ar ôl Gŵyl Ddiolchgarwch yn y wlad honno (y 'Thanksgiving' sy'n cael ei ddathlu ar bedwerydd dydd Iau mis Tachwedd). Mae *Black Friday* yn ddiwrnod siopa o bwys yn America. Caiff ei ystyried yn ddechrau cyfnod siopa'r Nadolig ac yn ddydd o fargeinion mawr yn y siopau.

Does a wnelo fo ddim â Chymru na gwledydd Prydain. Ond ers blwyddyn neu ddwy mae'r siopau mawr wedi ei fabwysiadu, ac mae'r cyfryngau wedi ei hyrwyddo. A thrwy eu hymdrechion mae arferiad newydd wedi ei eni, a phobl yn sôn am *Black Friday* fel petai yn hen gyfaill. (Gallaf gydymdeimlo â phobl sy'n mynnu na ddylid hyd yn oed gyfieithu'r enw i'r Gymraeg am ei fod yn arferiad mor estron, er bod y

term 'Dydd Gwener y Gwario' wedi ei glywed fwy nag unwaith echdoe.

Ond os yw'r ffordd y llwyddir i greu arferion newydd yn ddychryn i ni, mae'r ffordd y collir arferion eraill yr un mor rhwydd yn fwy o ddychryn. Ac ymhlith y pethau a gollwyd gan gynifer o bobl heddiw y mae arferion Cristnogol fel mynychu oedfa ac Ysgol Sul, darllen y Beibl a gweddio.

Mae gennym lawer iawn o arferion gwerthfawr. Ond nid yw pob arferiad yn dda, ac mae *Black Friday* yn sicr yn un y byddai'n dda i ni hebddo os yw'r hyn a welwyd mewn sawl man echdoe yn debygol o ddod yn beth cyffredin.

Un peth y medrwn ddweud yn bendant yw bod arnom angen rhywbeth gwell nag arferion. Mae arferion yn medru bod yn bethau bregus. Gallwn greu arferion yn rhwydd, ond gallwn eu rhoi heibio hefyd yr un mor rhwydd. Ac er bod yna lawer o arferion da yn deillio o'r Ffydd Gristnogol, mor bwysig yw deall bod y Ffydd honno yn llawer mwy nag arferion. Bywyd, yn hytrach nag arferion yw Cristnogaeth, bywyd o ffydd yn Iesu Grist; bywyd o adnabod Iesu a'i ddilyn; bywyd o dderbyn ei gariad ac o ddangos ei gariad.

Ac nid bywyd sydd wedi ei greu gan bobl – yn America nac unman arall – yw hwnnw, ond bywyd a luniwyd ar ein cyfer gan Dduw ac a roddwyd i ni trwy ei Ysbryd Glân. Ac oherwydd hynny, mae'n fywyd sy'n para byth.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul olaf mis Tachwedd. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Yn Neiniolen, bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams. Croeso cynnes iddi unwaith eto a diolch am ei gwasanaeth.

Bydd yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch dan arweiniad Mrs Nerys Griffiths, Caernarfon, ac estynnwn iddi hithau yr un croeso gan ddiolch iddi am ei gwasanaeth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal rhai o chwirydd yr eglwys, a diolchwn i bob un ohonynt a fydd yn cymryd rhan heno.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o ryb.

Ffair Nadolig Capel Coch

Diolch yn fawr iawn am y gefnogaeth a gafwyd i'r Ffair Nadolig yn Capel Coch ddydd Mercher. Gwnaed elw o £656 at Gronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Roedd llawer wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer y Ffair eleni eto, a gwerthfawrogwn eu gwaith yn fawr. Roedd prysurdeb mawr wrth y stondinau gwerthu.

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth yno i gefnogi'r ymdrech, ac i bawb a fu'n gweithio'n galed i gynnal y Ffair, wrth y byrddau, wrth y drws neu'n gweini o'r gegin.

Yn ogystal â chodi arian, roedd y Ffair yn gyfle i bobl ddod ynghyd a mwynhau sgwrs dros banded, ac roedd y ffaith bod cymaint wedi aros yno i'r diwedd yn dangos bod y gwmniaeth yn braf. Diolch unwaith eto i bawb a gefnogodd y Ffair.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Rhagfyr 3.

Byddwn yn parhau i feddwl am yr hyn a ddywed y Beibl am y Meseia wrth i ni fynd ymlaen at benillion nesaf y garol 'Ar gyfer heddiw'r bore' gan Eos Iâl.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatree, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Rhagfyr 5.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylyd wrth gwrs.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos. Diolch i Andrew am ei help a'i waith paratoi ar gyfer y cyfarfod unwaith eto.

Bydd y cyfarfod nesaf wythnos i nos Wener, Rhagfyr 12, rhwng 7.00 ac 8.30 o'r gloch.

Cymdeithas Undebol

Dr Huw Roberts, Caernarfon oedd y gŵr gwâdd yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen nos Lun diwethaf.

Cafwyd sgwrs ganddo am y gweithfeydd copr ar Fynydd Parys yn Sir Fôn. Roedd yn ddiddorol iawn cael hanes diwydiant a oedd yn ddiethr mae'n debyg i'r rhan fwyaf ohonom.

Diolchwyd iddo am ei sgwrs gan Mr Brian Price.

Agor y Llyfr

Cafwyd cyfle i egluo'r Cynllun 'Agor y Llyfr' fore Mawrth diwethaf yn Eglwys Llandinorwig. Cawsom glywed am y timau o bobl sy'n cyflwyno 'Agor y Llyfr' mewn ysgolion yn Sir Fôn, Hirael a Maesgeirchen a'r mwynhad a gaiff pobl yn y gwaith o gyflwyno straeon o'r Beibl i'r plant. Cawsom glywed hefyd am lwyddiant y cynllun hwn yn Ysgol Cwm-y-glo.

Roedd un neu ddau wedi bwriadu dod i'r cyfarfod ond wedi methu. Byddwn yn cynnal cyfarfod arall yn fuan er mwyn rhoi mwy o wybodaeth a rhywfaint o hyfforddiant syml ar gyfer cyflwyno'r straeon.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r gwaith hwn, holwch y Gweinidog am ragor o fanylion. Cewch wybod dyddiad y cyfarfod nesaf unwaith y bydd wedi ei drefnu.

Cardiau Nadolig

Mae cardiau Nadolig Cyngor Ysgolion Sul i'w cael am £2 y pecyn gan Mrs Jane Thorman Jones gyda'r elw at Ysgol Sul Deiniolen.

Nadolig yr Ofalaeth

**Cyfarfod Nadolig
Cymdeithas Undebol Llanberis**
Nos Fawrth, Rhagfyr 9
am 7.00 o'r gloch
yn Capel Coch

Oedfaon Nadolig Plant Deiniolen
Dydd Sul, Rhagfyr 21
am 10.00 o'r gloch
yn Ebeneser

Oedfaon Nadolig Plant Capel Coch
Nos Sul, Rhagfyr 21
am 5.00 o'r gloch

**Gwasanaeth Undebol
New Llith a Charol
Llanberis**
Nos Sul, Rhagfyr 14
am 5.00 o'r gloch
yn Capel Coch
(fel rhan o oedfa MOLI)

**Gwasanaeth Undebol
New Llith a Charol
Deiniolen**
Pnawn Sul, Rhagfyr 28
am 3.00 o'r gloch
yn Eglwys Llandinorwig

Cymun Bore Nadolig
Dydd Iau, Rhagfyr 25
yr Ofalaeth
am 10.00 o'r gloch
yn Capel Coch